Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 28 Mehefin 2016

Presennol: A. Mummery, (Cadeirydd), J. Roberts, A. Jones, G. Parry, G. C. Jones, Meirion Jones, A. Williams, D. James, Mervyn Jones, S. Edwards,
J. Evans (Cynghorwr Sirol)
Dafydd Owen (clerc)

		Gweithred	Dyddiad
1.0	**Ymddiheuriadau**:		
	E. Parry, B. Jones, H. Huws, D. Williams,		
2.0	**Datganiadau Diddordeb**.		
	Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.		
3.0	**Cyfrifon Mis Mehefin 2016**		
	A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio. Derbyniwyd y cyfrifon fel rhai cywir		
4.0	**Materion y Cyngor Sir**		
4.1	Meirion Jones yn nodi fod y Cyngor Sir wedi cychwyn gyda Gweithio'n Gallach ac mae'n dod yn fwy amlwg yn y swyddfeydd. Hefyd yn nodi Parc Mount ar werth.		
4.2	Meirion Jones yn nodi bod Lôn Refail ar y rhestr i dderbyn gwaith adnewyddu. Hefyd yn nodi bod Lôn Pant yn mynd i gael gwaith 'surface dressing'		
5.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod Blynyddol 31 Mai 2016**		
5.1	J. Roberts yn cynnig, A. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir.		
6.0	**Materion yn codi**		
6.1	Twr Marcwis - A. Mummery am adrodd yn ôl pan fydd ganddo ddiweddariad	**A. Mummery**	
6.2	Plac ar dy Kyffin Williams - Meirion Jones syn nodi ei bod yn ddeg mlynedd yn Hydref ers bu Kyffin Williams farw. Cytunwyd i symud ymlaen gyda'r plac ar y sail hon.	**Meirion Jones**	**26/07/16**
6.3	Llwybr beicio - H. Huws yn cadarnhau fod gwaith ar y lon wedi gwneud ond dim y llwybr beicio. CSYM am alw allan i edrych arno. S. Edwards yn nodi bod y llwybr beicio wrth y drosffordd A55 gyda gordyfiant drwg. Angen hysbysu'r Cyngor Sir.	**D. Owen**	**26/07/16**
6.4	Ty Station Pringles - Clerc wedi derbyn ymateb, Pringles yn gwrthod rhoi caniatâd i ddefnyddio'r ty station oherwydd ei gyflwr gwael. Cyngor Bro i ymateb yn nodi ein siom a gofyn iddynt weithredu ar atgyweirio'r adeilad.	**D, Owen**	**26/07/16**
6.5	Grant memorials fund - A. Jones I gyfarfod a Peter Llewelyn ar y safle	**A. Jones**	**26/07/16**
6.6	Biniau Baw Ci - Meirion Jones yn nodi bod cyfarfod gwasanaeth i'w gynnal yn y Cyngor Sir diwedd Mehefin. Hefyd yn nodi bod y mater i'w drafod yng nghyfarfodydd Un Llais a Fforwm Cyswllt Môn yn Mis Gorffennaf.		
6.7	Offer cadw'n heini yn y Maes Chwarae - S. Edwards wedi siarad gyda B. Jones, nodi fod ffrindiau'r parc a'r gors dal yn bodoli. S. Edwards am dderbyn rhestr o grantiau ganddynt.	**S. Edwards**	**26/07/16**
6.8	Cyflwr y Maes Chwarae - Rheoli Gwastraff wedi cadarnhau fod Biffa yn galw i bob ardal o dro i dro i gasglu sbwriel fel rhan o'i gontract.		
6.9	Cynllun Iaith y Cyngor Bro - Meirion Jones yn nodi fod y Cyngor Sir wedi cymeradwyo Polisi Iaith newydd, a bod copi ar gael ar eu gwefan. D. James am gael edrychiad arno a chynnig adolygiadau a newidiadau I Gynllun Iaith y Cyngor Bro ym Mis Gorffennaf.	**D. James**	**26/07/16**
6.10	Ffens rhwng cae pêl droed a Threm Eryri - A. Mummery yn nodi ei fod yn disgwyl cael pris i drwsio'r ffens, ac i wneud y gwaith dros dro.	**A. Mummery**	**26/07/16**
6.11	Cais am fenthyciad gan y Clwb Bowlio - Cytunwyd I newidiadau i'r draft, ac yna i'w arwyddo gan y clwb bowlio	**D. Owen**	**26/07/16**
7.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo 07 Mehefin 2016**		
7.1	A. Jones yn cynnig, G. C. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir		

8.0	**Materion yn codi o'r cyfarfod**		
8.1	Niferoedd yn mynychu cyfarfodydd - Meryn Jones yn nodi bod angen cyfansoddiad i gadarnhau rheolau a gweithred is-bwyllgorau		
9.0	**Cyflwyno Awdit Mewnol**		
9.1	Nodwyd bod yr archwiliwr mewnol heb gwblhau'r gwaith, ac mae angen trefno cyfarfod i'w cymeradwyo pan fydd wedi cwblhau	**D. Owen**	
10.0	**Ymgynghoriad Safleoedd Teithwyr**		
10.1	Meirion Jones yn nodi bod safle Star yn un o safleoedd sy'n cael ei gysidro fel safle dros dro i deithwyr. Cytunwyd I ymateb y Cyngor Bro gadarnhau bod pryderon am fod y safle yn wlyb, pryderon am ddiogelwch oherwydd ei bod yn gyfagos i'r A5 a A55, a bod yr arolygon perthnasol heb gael ei gwblhau hyd yn hyn.	**D. Owen**	
11.0	**Maes Parcio'r Fynwent**		
11.1	G. Parry yn nodi'r digwyddiad diweddar yn y Maes Parcio gyda deilydd y cae yn gadael golwg yn y Maes Parcio. Cytunwyd I ysgrifennu i'r Cyngor Sir yn cwyno yn swyddogol am y deilydd.	**D. Owen**	**26/07/16**
12.0	**Ceisiadau Cynllunio**		
12.2	Llythyr CSYM - Ynglŷn â chais Hen Lôn Dyfnia - Nodwyd bod ymateb gwreiddiol y Cyngor Bro o fewn manylion y Cais.		
13.0	**Gohebiaeth**		
13.1	Llythyr agoriad swyddogol canolfan forol Prifysgol Bangor - A. Mummery am fynychu os mae'n rhydd		
13.2	Cyngor Sir - Penderfyniadau Cynllunio - Derbyn y wybodaeth		
13.3	Unllais Cymru - Cyfarfod Blynyddol 07 Gorffennaf 2016 - Derbyn y wybodaeth		
13.4	Ombwdsman - Adroddiad Blynyddol - Derbyn y wybodaeth		

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 26 Gorffennaf 2016 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd…… (Cadeirydd) …… Dyddiad